eAtgoffa

Canllaw cyflym i ymuno â'r gwasanaeth

Tŷ'r Cwmnïau

Mewnlofnodi neu gofrestru ar gyfer WebFiling

Cofrestrwch ar gyfer gwasanaeth WebFiling Tŷ'r Cwmnïau. Ar ôl cofrestru cwblhewch broses mewnlofnodi WebFiling ac mae'r ddolen '**Ymuno â'r gwasanaeth eAtgoffa**' ar y sgrin trosolwg cwmni.

Ychwanegu fy nghyfeiriad e-bost

Dewiswch '**Ymuno â'r gwasanaeth eAtgoffa**', ac ar y sgrin rheoli eAtgoffa, bydd eich cyfeiriad e-bost yn cael ei ddangos o dan y pennawd: '**Ychwanegu fy nghyfeiriad e-bost WebFiling**'. Dewiswch y botwm '**Gorffen**', a 'Cadw'.

Y sgrin trosolwg cwmni

Ar y sgrin trosolwg cwmni, bydd eAtgoffa yn awr yn dangos '**Angen galluogi'r cyfeiriad e-bost**'. Cyn pen 1 munud anfonir neges e-bost atoch i alluogi'ch cyfeiriad e-bost.

Galluogi eich cyfeiriad e-bost

Cliciwch ar y ddolen yn y neges e-bost fydd yn mynd â chi i sgrin galluogi. Darllenwch Delerau Gweithredu'r Gwasanaeth eAtgoffa, cytunwch iddynt a chlicio ar '**Bwrw ymlaen**'. Anfonir neges e-bost atoch i gadarnhau eich bod wedi ymuno â'r Gwasanaeth eAtgoffa ar gyfer y cwmni hwnnw'n unig.

Y sgrin trosolwg cwmni

Os ewch yn ôl i'r sgrin trosolwg cwmni fe welwch fod tic erbyn hyn nesaf at eAtgoffa. Hefyd dangosir eich cyfeiriad e-bost ar y sgrin rheoli eAtgoffa o dan y pennawd: '**Cyfeiriad e-bost i gael negeseuon eAtgoffa**'.

Ychwanegu rhagor o gyfeiriadau e-bost:

Gall pob cwmni fod â 4 cyfeiriad e-bost ar y mwyaf. Rhaid i'r neges e-bost gael ei galluogi gan y sawl sy'n ei chael, sy'n cytuno i ymuno â'r Gwasanaeth eAtgoffa trwy dderbyn y Telerau Gweithredu

Ychwanegu fy nghyfeiriad e-bost i gwmnïau eraill rwy'n eu cynrychioli:

Os ydych chi'n cynrychioli mwy nag un cwmni bydd yn rhaid i chi gofrestru i gael nodiadau eAtgoffa ar gyfer pob cwmni ar wahân a galluogi'r holl negeseuon e-bost a gewch. Ar hyn o bryd nid oes cyfleuster i alluogi'r gwasanaeth eAtgoffa i fwy nag un cwmni ar y tro.

Asiantaeth Weithredol yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS) yw Tŷ'r Cwmnïau

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID
UK
Safon y Llywodraeth
The Government Standard